OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 57 (Cy. 27)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *27 Ionawr 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Mawrth 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 303 a 333(2A) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 303(8) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016, a deuant i rym ar 1 Mawrth 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys—

(a) pan wneir cais i Weinidogion Cymru o dan adran 62D o Ddeddf 1990 (datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol sydd i'w gwneud i Weinidogion Cymru)(**2**); neu

(b) pan gynigir bod cais o'r fath yn cael ei wneud.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "ceisydd" ("*applicant*") yw person sydd naill ai'n bwriadu gwneud cais neu sydd wedi gwneud cais o'r fath;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

ystyr "Gorchymyn 2016" ("*the 2016 Order*") yw Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016(**3**);

(**1**) 1990 p. 8. Amnewidiwyd adran 303 gan adran 199 o Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29) a diwygiwyd hi gan adran 27 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc. 4) a pharagraff 18 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno. Gweler adran 336(1) o Ddeddf 1990 ar gyfer ystyr "prescribed". Gwnaed diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Mewnosodwyd adran 333(2A) gan adran 118(1) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) a pharagraffau 1 ac 14 o Atodlen 6 i'r Ddeddf honno.

(**2**) Mewnosodwyd adran 62D gan adran 19 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

(**3**) O.S. 2016/55 (Cy.25).

ystyr "person penodedig" ("*appointed person*") yw'r person a benodir o dan Reoliadau 2016 i arfer y swyddogaethau a bennir yn y Rheoliadau hynny (yn ddarostyngedig bob amser i unrhyw gyfarwyddyd o dan baragraff 9 o Atodlen 4D i Ddeddf 1990)(**4**); ac

ystyr "Rheoliadau 2016" ("*the 2016 Regulations*") yw Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016(**5**).

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae unrhyw gyfeiriad—

(a) at gael taliad o ffi yn gyfeiriad at y derbynnydd yn cael taliad o swm llawn y ffi mewn arian a gliriwyd;

(b) at fethiant i dalu ffi yn gyfeiriad at y derbynnydd yn peidio â chael swm llawn y ffi mewn arian a gliriwyd, neu yn cael siec nas anrhydeddir yn ddiweddarach am swm llawn y ffi; ac

(c) at golofn neu res yn gyfeiriad at golofn neu res yn y tabl yn yr Atodlen.

### Ffi am wasanaethau awdurdodau cynllunio lleol cyn ymgeisio

**3.**—(1) Pan wneir archiad gwasanaethau cyn ymgeisio gan awdurdod cynllunio lleol o dan Reoliadau 2016, rhaid talu ffi i'r awdurdod.

(2) Y ffi sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn yw'r swm a nodir yn y rhes berthnasol o golofn 3.

(3) Rhaid cyflwyno'r ffi ynghyd â'r archiad.

(4) Os yw'r ceisydd yn methu â thalu'r ffi o dan y rheoliad hwn, ni fydd rhaid i'r awdurdod lleol gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r archiad hyd nes bo'r awdurdod yn cael y taliad.

(5) Rhaid i unrhyw ffi a dalwyd yn unol â'r rheoliad hwn gael ei ad-dalu os gwrthodir yr archiad fel un annilys.

(6) Yn y rheoliad hwn, ystyr "yr awdurdod cynllunio lleol" ("*the local planning authority*") yw'r awdurdod lleol y byddid, oni bai am adran 62D o Ddeddf 1990, wedi gwneud y cais arfaethedig iddo.

### Ffi am wasanaethau Gweinidogion Cymru cyn ymgeisio

**4.**—(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn darparu gwasanaethau cyn ymgeisio yn unol â Rheoliadau 2016 ("gwasanaethau cyn ymgeisio") ("*pre-application services*"), rhaid talu ffi i Weinidogion Cymru.

(2) Cyfrifir y ffi sy'n daladwy drwy luosi cyfanswm yr amser (mewn oriau a rhannau o awr) a dreulir gan swyddog cynllunio yn darparu gwasanaethau cyn ymgeisio gyda'r gyfradd fesul awr am swyddog cynllunio.

(3) Y gyfradd fesul awr am swyddog cynllunio yw'r swm a nodir yn y rhes berthnasol o golofn 3.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru anfonebu'r ceisydd fesul ysbaid resymol mewn cysylltiad â nifer yr oriau a dreulir yn darparu gwasanaethau cyn ymgeisio a swm y ffi am y gwasanaethau hynny.

(5) Rhaid i unrhyw ffi sy'n ddyladwy mewn cysylltiad â gwasanaethau cyn cymhwyso gyrraedd Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod yr anfonir yr anfoneb berthnasol oddi wrth Weinidogion Cymru.

(6) Os yw'r ceisydd yn methu â thalu unrhyw ffi am wasanaethau cyn cymhwyso o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (5), ni fydd rhaid i Weinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r ddarpariaeth o wasanaethau cyn ymgeisio hyd nes byddant wedi cael y taliad.

(7) Yn y rheoliad hwn, ystyr "swyddog cynllunio" ("*planning officer*") yw swyddog sy'n gweithio i gyd-asiantaeth weithredol yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru, a elwir yr Arolygiaeth Gynllunio.

(**4**) Mewnosodwyd Atodlen 4D gan adran 26 o Ddeddf Cynllunio Cymru 2015 a pharagraff 1 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno.
(**5**) O.S. 2016/56 (Cy.26).

### Ffi am hysbysu ynghylch cais arfaethedig

**5.**—(1) Pan fo'r ceisydd yn rhoi hysbysiad ynghylch cais arfaethedig yn unol ag adran 62E(1) o Ddeddf 1990 (hysbysiad o gais arfaethedig o dan adran 62D)(**6**), rhaid talu ffi i Weinidogion Cymru ("ffi hysbysu") (" *notification fee*").

(2) Y ffi hysbysu yw'r swm a nodir yn y rhes berthnasol o golofn 3.

(3) Rhaid cyflwyno'r ffi hysbysu ynghyd â'r hysbysiad.

### Ffi am wneud cais

**6.**—(1) Rhaid i ffi gael ei thalu i Weinidogion Cymru gan y ceisydd am wneud cais.

(2) Y ffi yw swm cyfanredol y canlynol—

(a) y ffi ddechreuol yn unol â rheoliad 7;

(b) y ffi am bob adroddiad ar yr effaith leol yn unol â rheoliad 8;

(c) y ffi am archwilio cais, a gyfrifir yn unol â rheoliad 10(2);

(d) y ffi am unrhyw hysbysiad o fwriad i amrywio cais yn unol â rheoliad 11(2); ac

(e) y ffi am benderfynu cais gan Weinidogion Cymru, a gyfrifir yn unol â rheoliad 12(2).

### Ffi ddechreuol am wneud cais

**7.**—(1) Pan wneir cais i Weinidogion Cymru, rhaid talu ffi ddechreuol i Weinidogion Cymru ("ffi ddechreuol") ("*initial fee*").

(2) Y ffi ddechreuol yw'r swm a nodir yn y rhes berthnasol o golofn 3.

(3) Rhaid cyflwyno'r ffi ddechreuol ynghyd â'r cais.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru ad-dalu 75% o'r ffi ddechreuol i'r ceisydd os—

(a) tynnir y cais yn ôl cyn bo Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad derbyn i'r ceisydd; neu

(b) hysbysir y ceisydd o dan erthygl 15(5) o Orchymyn 2016 nad yw'r cais wedi ei dderbyn.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru ad-dalu 25% o'r ffi ddechreuol i'r ceisydd os oes hysbysiad derbyn wedi ei roi ond tynnir y cais yn ôl cyn diwedd y cyfnod sylwadau.

(6) Ym mharagraffau (4) a (5), mae'r cyfeiriadau at y ffi ddechreuol yn gyfeiriadau at y ffi ddechreuol a dalwyd gan y ceisydd i Weinidogion Cymru.

(7) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "hysbysiad derbyn" ("*notice of acceptance*") yw hysbysiad o dan erthygl 15(2) o Orchymyn 2016 bod y cais wedi ei dderbyn; ac

(b) ystyr "y cyfnod sylwadau" ("*the representation period*") yw'r cyfnod y darperir ar ei gyfer yn erthygl 4 o Orchymyn 2016(**7**).

(**6**) Mewnosodwyd adran 62E gan adran 19 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

(**7**) Mae erthygl 4 yn darparu mai'r cyfnod sylwadau yw pum wythnos ond caiff Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd estyn y cyfnod hwnnw mewn unrhyw achos penodol.

### Ffi am adroddiad ar yr effaith leol

**8.**—(1) Rhaid talu ffi i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â phob adroddiad ar yr effaith leol(**8**) y gwneir yn ofynnol bod awdurdod cynllunio lleol perthnasol yn ei gyflwyno(**9**) ("ffi am adroddiad") ("*report fee*").

(2) Y ffi am adroddiad yw'r swm a nodir yn y rhes berthnasol o golofn 3.

(3) Rhaid cyflwyno'r ffi am adroddiad ynghyd â'r cais.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) anfon y cyfryw ffi ymlaen yn unol â rheoliad 9(2); neu

(b) anfon ac ad-dalu'r cyfryw ffi yn unol â rheoliad 9(3); neu

(c) ad-dalu'r cyfryw ffi yn unol â rheoliad 9(1) neu 9(4).

### Peidio â chodi ffi am adroddiad a'i had-dalu

**9.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ad-dalu'r ffi am adroddiad i'r ceisydd pan—

(a) tynnir y cais yn ôl cyn bo awdurdod cynllunio lleol perthnasol wedi cyflwyno adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru; neu

(b) hysbysir y ceisydd gan Weinidogion Cymru o dan erthygl 15(5) o Orchymyn 2016 nad yw'r cais wedi ei dderbyn.

(2) Pan fo awdurdod cynllunio lleol perthnasol yn cyflwyno adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru erbyn y terfyn amser a bennwyd gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 62I(3) o Ddeddf 1990 ("y terfyn amser") ("*the deadline*"), rhaid i Weinidogion Cymru anfon y ffi am adroddiad at yr awdurdod.

(3) Pan fo awdurdod cynllunio lleol perthnasol yn cyflwyno adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru ar ôl y terfyn amser ond o fewn cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau gyda'r terfyn amser, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) anfon hanner y ffi am adroddiad at yr awdurdod; a

(b) ad-dalu hanner arall y ffi am adroddiad i'r ceisydd.

(4) Pan nad yw awdurdod cynllunio lleol perthnasol yn cyflwyno adroddiad ar yr effaith leol i Weinidogion Cymru naill ai erbyn y terfyn amser neu o fewn y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau gyda'r terfyn amser, rhaid i Weinidogion Cymru ad-dalu'r ffi am adroddiad i'r ceisydd.

(5) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at "ffi am adroddiad" yn gyfeiriadau at y ffi am adroddiad a dalwyd i Weinidogion Cymru gan y ceisydd.

### Ffi am archwilio cais

**10.**—(1) Rhaid talu ffi i Weinidogion Cymru am archwilio cais ("ffi archwilio") ("*examination fee*").

(2) Rhaid cyfrifo'r ffi fel swm cyfanredol—

(a) nifer y diwrnodau neu ran o ddiwrnod a dreulir gan y person penodedig yn archwilio'r cais wedi ei luosi gydag—

(i) ar gyfer y rhan honno o'r cais a archwilir ar sail sylwadau ysgrifenedig, y gyfradd ddyddiol a nodir yn y rhes berthnasol o golofn 3;

(**8**) Ar gyfer "local impact report" gweler adran 62K o Ddeddf 1990. Mewnosodwyd adran 62K gan adran 21 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Rhaid i adroddiad ar yr effaith leol gael ei gyflwyno gan awdurdodau cynllunio lleol perthnasol, gweler adran 62I.

(**9**) Ar gyfer "relevant local planning authority" ("*awdurdod cynllunio lleol perthnasol*") gweler adran 62I(5) o Ddeddf 1990. Mewnosodwyd adran 62I gan adran 21 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

(ii) ar gyfer y rhan honno o'r cais a archwilir ar sail gwrandawiad neu ymchwiliad, y gyfradd ddyddiol a nodir yn y rhes berthnasol o golofn 3; a

(b) unrhyw gostau ychwanegol a dynnir mewn gwirionedd gan neu ar ran Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad ag archwilio'r cais.

(3) Mae'r costau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2)(b) yn cynnwys—

(a) costau a dynnir wrth ddarparu lleoliad neu gyfleusterau eraill mewn cysylltiad â gwrandawiad neu ymchwiliad, gan gynnwys costau a dynnir yn rhesymol mewn cysylltiad â gwrandawiad neu ymchwiliad nas cynhelir;

(b) costau a dynnir wrth roi hysbysiad cyhoeddus o wrandawiad neu ymchwiliad;

(c) unrhyw gostau sy'n briodoladwy i benodi asesydd;

(d) unrhyw gostau cyfreithiol neu alldaliadau rhesymol eraill a dynnir neu a delir gan neu ar ran Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad ag archwilio cais.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru roi i'r ceisydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, amcangyfrif ysgrifenedig o'r nifer o ddiwrnodau y bydd archwilio'r cais yn debygol o'u cymryd.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r amcangyfrif y cyfeirir ato ym mharagraff (4), ar unrhyw adeg.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru anfonebu'r ceisydd fesul ysbaid resymol mewn cysylltiad â nifer y diwrnodau a dreulir ac am unrhyw gostau a dynnir mewn gwirionedd mewn cysylltiad ag archwilio'r cais.

(7) Rhaid i unrhyw ffi sy'n ddyladwy o dan y rheoliad hwn gyrraedd Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod yr anfonir yr anfoneb berthnasol oddi wrth Weinidogion Cymru.

(8) Os yw'r ceisydd yn methu â thalu unrhyw ffi sy'n ddyladwy o dan y rheoliad hwn o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (7), ni fydd rhaid i Weinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r cais hyd nes byddant wedi cael y taliad.

(9) Os bydd y ceisydd yn methu â thalu unrhyw ffi sy'n ddyladwy o dan y rheoliad hwn o fewn y cyfnod o 12 wythnos sy'n dechrau ar ddiwedd y cyfnod ym mharagraff (7), ni fydd rhaid i Weinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r cais ac ystyrir bod y cais wedi ei dynnu'n ôl.

(10) Mae ffi yn parhau yn daladwy o dan y rheoliad hwn pan dynnir cais yn ôl cyn bo adroddiad wedi ei wneud o dan Reoliadau 2016.

(11) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "asesydd" ("*assessor*") yw person a benodir i eistedd gyda pherson penodedig mewn gwrandawiad neu ymchwiliad neu wrandawiad neu ymchwiliad a ail agorwyd, i gynorthwyo'r person penodedig;

(b) ystyrir bod "diwrnod" ("*day*") yn cynnwys 7.4 o oriau; ac

(c) bod "archwilio cais" ("*examining an application*") yn cynnwys archwilio unrhyw gydsyniadau eilaidd(**10**)sy'n gysylltiedig â'r cais pan fo'r penderfyniad ar y cydsyniadau hynny i gael ei wneud gan Weinidogion Cymru.

(**10**) Ar gyfer "secondary consents" ("cydsyniadau eilaidd") gweler adran 62H o Ddeddf 1990. Mewnosodwyd adran 62H gan adran 20 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Rhagnodir cydsyniadau eilaidd at ddibenion adran 62H gan Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016 (O.S. 2016/53) (Cy.23).

**Ffi am hysbysu ynghylch bwriad i amrywio**

**11.**—(1) Pan fo ceisydd yn rhoi hysbysiad o fwriad i amrywio cais, rhaid talu ffi i Weinidogion Cymru ("ffi amrywio") ("*variation fee*").

(2) Y ffi amrywio yw'r swm a nodir yn y rhes berthnasol o golofn 3.

(3) Rhaid cyflwyno'r ffi amrywio ynghyd â'r hysbysiad.

(4) Os yw'r ceisydd yn methu â thalu'r ffi amrywio, ni fydd rhaid i Weinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r hysbysiad hyd nes bydd Gweinidogion Cymru wedi cael y taliad.

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr "hysbysiad o fwriad i amrywio" ("*notification of intention to vary*") yw hysbysiad i Weinidogion Cymru o dan erthygl 27(3) o Orchymyn 2016, gan gynnwys yr erthygl honno fel y'i cymhwysir gan Reoliadau 2016.

**Ffi am i Weinidogion Cymru benderfynu cais**

**12.**—(1) Rhaid talu ffi i Weinidogion Cymru am benderfynu cais ("ffi benderfynu") ("*determination fee*").

(2) Y ffi benderfynu yw swm cyfanredol y canlynol—

(a) ffi benodedig; a

(b) unrhyw gostau ychwanegol a dynnir mewn gwirionedd gan neu ar ran Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â phenderfynu'r cais.

(3) Y ffi benodedig yw'r swm a nodir yn y rhes berthnasol o golofn 3.

(4) Mae'r costau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2)(b) yn cynnwys—

(a) unrhyw gostau cyfreithiol neu alldaliadau rhesymol eraill a dynnir neu a delir gan neu ar ran Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â phenderfynu'r cais; a

(b) costau a dynnir wrth adolygu ac ystyried rhwymedigaethau cynllunio(**11**).

(5) Caiff Gweinidogion Cymru anfonebu'r ceisydd am y ffi benodedig ar unrhyw adeg ar ôl cael adroddiad y person penodedig, a fesul ysbaid resymol mewn cysylltiad ag unrhyw gostau ychwanegol a dynnir mewn gwirionedd mewn cysylltiad â phenderfynu'r cais.

(6) Rhaid i unrhyw ffi sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn gyrraedd Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau gyda'r dyddiad yr anfonir yr anfoneb berthnasol oddi wrth Weinidogion Cymru.

(7) Os bydd y ceisydd yn methu â thalu unrhyw ffi sy'n ddyladwy o dan y rheoliad hwn o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (6), ni fydd rhaid i Weinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r cais hyd nes bydd Gweinidogion Cymru wedi cael y taliad.

(8) Os bydd y ceisydd yn methu â thalu unrhyw ffi sy'n ddyladwy o dan y rheoliad hwn o fewn y cyfnod o 12 wythnos sy'n dechrau ar ddiwedd y cyfnod a bennir ym mharagraff (6), ni fydd rhaid i Weinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r cais ac ystyrir bod y cais wedi ei dynnu'n ôl.

(9) Bydd ffi benderfynu yn parhau'n daladwy hyd yn oed os tynnir y cais yn ôl cyn i'r cais gael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru.

(10) Yn y rheoliad hwn, mae "penderfynu cais" ("*determining an application*") yn cynnwys penderfynu unrhyw gydsyniadau eilaidd sy'n gysylltiedig â'r cais pan fo'r penderfyniad ar y cydsyniadau hynny i gael ei wneud gan Weinidogion Cymru.

(**11**) Ar gyfer "planning obligations" gweler adran 106 o Ddeddf 1990. Amnewidiwyd adran 106 gan adran 12(1) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991(p 3) a diwygiwyd hi gan adran 174(2) o Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29). Nid yw diwygiadau eraill yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Adnoddau Naturiol, un o Weinidogion Cymru

27 Ionawr 2016

## YR ATODLEN

Rheoliadau 3(2), 4(3), 5(2), 7(2), 8(2), 10(2)(a)(i), 10(2)(a)(ii), 11(2), a 12(3)

### Symiau taladwy mewn cysylltiad â ffioedd ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

| *Colofn 1*<br><br>*Rheoliad* | *Colofn 2*<br><br>*Pwnc* | *Colofn 3* |
|---|---|---|
| Rheoliad 3(2) | Gwasanaethau cyn ymgeisio awdurdodau cynllunio lleol | £1,500 |
| Rheoliad 4(3) | Cyfradd fesul awr am swyddog cynllunio | £55 plws treth ar werth |
| Rheoliad 5(2) | Ffi hysbysu | £580 |
| Rheoliad 7(2) | Ffi ddechreuol | £15,350 |
| Rheoliad 8(2) | Ffi am adroddiad mewn achos pan fo adroddiad ar yr effaith leol yn ofynnol mewn cysylltiad â chais yn unol ag adran 73 o Ddeddf 1990 (penderfynu ceisiadau i ddatblygu tir heb gydymffurfio ag amodau a osodwyd yn flaenorol)(**12**) pan fod adroddiad ar yr effaith leol wedi ei gyflwyno yn flaenorol | £2,350 |
| | Ffi adrodd mewn unrhyw achos arall | £7,750 |
| Rheoliad 10(2)(a)(i) | Cyfradd ddyddiol am berson penodedig yn archwilio cais ar sail sylwadau ysgrifenedig | £870 |
| Rheoliad 10(2)(a)(ii) | Cyfradd ddyddiol am berson penodedig yn archwilio cais ar sail gwrandawiad neu ymchwiliad | £920 |
| Rheoliad 11(2) | Ffi amrywio | £520 |
| Rheoliad 12(3) | Ffi benodedig am i gais gael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru | £14,700 |

(**12**) Diwygiwyd adran 73 gan adrannau 42 a 120 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 1 o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno. Nid yw diwygiadau eraill yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Gweler adran 62D(6) a (7) o Ddeddf 1990 ar gyfer yr amgylchiadau pan fo cais o dan adran 73 i gael ei drin fel pe bai'n gais datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer talu ffioedd mewn cysylltiad ag—

(1) gwasanaethau cyn ymgeisio a ddarperir gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol o dan Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (rheoliadau 3 a 4);

(2) hysbysiadau o geisiadau arfaethedig o dan adran 62D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") (rheoliad 5);

(3) ceisiadau o dan adran 62D o Ddeddf 1990, gan gynnwys ffioedd am adroddiadau ar yr effaith leol a wneir yn ofynnol mewn perthynas â cheisiadau o'r fath gan adran 62I o Ddeddf 1990 (rheoliadau 6 i 12).

Maent hefyd yn rhagnodi'r amgylchiadau—

(1) pan ad-delir rhan o'r ffioedd dechreuol a dalwyd i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â cheisiadau o dan adran 62D o Ddeddf 1990 (rheoliad 7); a

(2) pan fo ffioedd a dalwyd i Weinidogion Cymru am adroddiadau ar yr effaith leol yn cael eu hanfon at awdurdodau cynllunio lleol neu eu had-dalu i geiswyr (rheoliadau 8 a 9).

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n gymwys i'r Rheoliadau hyn ar gael gan Lywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk.